citb.co.uk

Mewn cydweithrediad ag

Experian

Cymru Wales

# Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu Cymru 2014-2018

Gwybodaeth am y Farchnad Lafur





Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i CITB sicrhau bod y diwydiant mwyaf yn y DU yn meddu ar y gweithlu medrus sy'n angenrheidiol. Gan weithio gyda'r Llywodraeth, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y diwydiant yn cynnwys digon o newydd-ddyfodiaid cymwys a bod y gweithlu presennol yn hollol fedrus a chymwys, yn ogystal â gwella perfformiad y diwydiant a'r cwmnïau ynddo.

Mae'r deunyddiau hyn, ynghyd â'r holl hawliau eiddo deallusol ynddynt, yn eiddo i Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB). Hawlfraint 2005 ("CITB") ac ni ddylid eu copïo, eu hatgynhyrchu na'u trosglwyddo i drydydd parti heb sicrhau caniatâd ysgrifenedig CITB ymlaen llaw. Lluniwyd y deunyddiau hyn gan ddefnyddio data a gwybodaeth a ddarparwyd i CITB a/neu EXPERIAN Limited ("Experian") gan drydydd partïon, ac nid oes modd i EXPERIAN na CITB ddilysu eu cywirdeb. Felly, nid yw EXPERIAN na CITB yn cynnig unrhyw warant ynghylch cywirdeb neu addasrwydd unrhyw ddiben penodol y deunyddiau hyn. Yn ogystal, nid yw'r deunyddiau hyn yn cynnig cyngor, ac ni ddylid eu defnyddio fel yr unig sail dros wneud unrhyw benderfyniad busnes, ac o'r herwydd, ni fydd EXPERIAN na CITB yn atebol dros unrhyw benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar sail hyn. Rydych yn cydnabod nad yw deunyddiau y maent yn defnyddio data empirig a/neu ddata ystadegol a/neu fodelu data a/neu dechnegau rhagamcanu er mwyn darparu data mynegol a/neu ragfynegol, yn gallu cynnig gwarant o unrhyw ganlyniad penodol.

# Cynnwys


1 Crynodeb a chanfyddiadau allweddol ... 4
2 Y rhagolwg ar gyfer y diwydiant adeiladu yng Nghymru ... 6
3 Rhagolygon ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru ... 12
4 Cymariaethau ledled y DU ... 14


## Tablau a siartiau


1 Twf allbwn adeiladu cyfartalog blynyddol 2014-2018 ... 4
2 Cymhariaeth ranbarthol 2014-2018 ... 5
3 Allbwn adeiladu 1996-2012 ... 6
4 Strwythur y diwydiant adeiladu 2012 ... 6
5 Strwythur economaidd ... 7
6 Dangosyddion economaidd ... 7
7 Twf mewn archebion ar gyfer gwaith adeiladu newydd 1996-2012 ... 8
8 Archebion ar gyfer gwaith adeiladu newydd ... 8
9 Twf allbwn adeiladu cyfartalog blynyddol 2014-2015 ... 9
10 Allbwn adeiladu 2014-2015 ... 9
11 Twf allbwn adeiladu cyfartalog blynyddol 2014-2018 ... 10
12 Allbwn adeiladu 2014-2018 ... 11
13 Cyfanswm cyflogaeth yn ôl galwedigaeth ... 12
14 Gofyniad recriwtio blynyddol yn ôl galwedigaeth ... 13
15 Twf allbwn cyfartalog blynyddol yn ôl rhanbarth ... 15
16 Gofyniad recriwtio blynyddol yn ôl rhanbarth ... 15



## Esbonio Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu (CSN)


1 Methodoleg CSN ... 17
2 Rhestr termau ... 18
3 Nodiadau ac olion traed ... 19
4 Diffiniadau: mathau ac enghreifftiau o waith adeiladu ... 20
5 Grwpiau galwedigaethol ... 22
6 Gwefan CSN a manylion cyswllt ... 25

# 1 Crynodeb – Cymru

Disgwylir i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru weld cynnydd mewn allbwn o 3.4% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd hyd at 2018. Fodd bynnag, mae'r gyfradd twf gref hon yn dibynnu i raddau helaeth ar ddechrau'r prif waith adeiladu ar brosiect gorsaf ynni niwclear Wylfa tuag at ddiwedd cyfnod y rhagolwg. Ac eithrio Wylfa, byddai'r twf allbwn cyfartalog blynyddol yn disgyn i 2.5%. Disgwylir i gyflogaeth yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru gynyddu 1.8% y flwyddyn ar gyfartaledd dros yr un cyfnod. Mae hon yn gyfradd twf lawer is o gymharu ag allbwn, gan nad yw gwaith adeiladu niwclear newydd yn arbennig o lafurddwys. Y gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) yw 3,570, sy'n cyfateb i 3.5% o gyflogaeth sylfaen 2014 yng Nghymru.

**Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu 2014-2018 – Cymru**




Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2



## 1.1 Canfyddiadau allweddol

Mae'r hinsawdd economaidd gyffredinol wedi gwella'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau buddsoddi yn y sector adeiladu preifat yn y DU, ac nid yw Cymru'n eithriad i hynny. Mae'r sector adeiladu yng Nghymru yn cael ei ysgogi ymhellach gan un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i gadw gwariant cyfalaf ar bob math o seilwaith - trafnidiaeth, ynni, cymdeithasol - yn weddol sefydlog, yn ogystal â'r posibilrwydd y bydd gwaith adeiladu niwclear newydd yn dechrau yn Wylfa tuag at ddiwedd cyfnod y rhagolwg.

Felly, rhagwelir mai yng Nghymru y gwelir y twf allbwn adeiladu cyffredinol mwyaf ond un o blith unrhyw ranbarth a gwlad ddatganoledig, sef cyfradd gyfartalog flynyddol o 3.4%. Dim ond yn ne-orllewin Lloegr y gwelir twf mwy o faint yn ôl y rhagolygon, sef 3.5%. Disgwylir i waith newydd wneud yn sylweddol well na gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, gyda chyfraddau twf cyfartalog blynyddol o 4.1% a 1.8% yn y drefn honno.

Rhagwelir mai seilwaith fydd y sector cryfaf o bell ffordd, gyda chyfradd twf allbwn cyfartalog flynyddol o 11% dros gyfnod y rhagolwg. Bydd gwaith trafnidiaeth ac, yn benodol, y gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd y cymoedd a rhannau o brif linell Great Western, yn ysgogi twf ar ddechrau cyfnod y rhagolwg, gyda gwaith adeiladu niwclear newydd yn achub y blaen tuag at ddiwedd y cyfnod. Heb Wylfa, byddai twf allbwn seilwaith yn disgyn i tua 5.4% y flwyddyn ar gyfartaledd.

Disgwylir mai'r sector tai preifat fydd y cryfaf ond un, gyda thwf allbwn blynyddol rhagamcanol o 5.3% yn ystod y pum mlynedd hyd at 2018. Mae nifer yr archebion newydd a thai newydd eisoes ar gynnydd, a chânt eu hysgogi, o leiaf yn rhannol, gan gynlluniau fel Cymorth i Brynu. Bydd prosiectau fel datblygiad Coed Darcy yn rhoi ffrydiau allbwn cryf i'r sector ar gyfer holl gyfnod y rhagolwg a thu hwnt.

Mae twf cyflogaeth, ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 1.8%, yn sylweddol well na chyfradd y DU gyfan (1.2%), ond mae'n isel o gymharu â chyfradd twf allbwn Cymru, sef 3.4% y flwyddyn ar gyfartaledd. Fodd bynnag, nid yw gwaith adeiladu niwclear newydd yn arbennig o lafurddwys felly caiff llawer llai o effaith ar gyflogaeth o gymharu ag allbwn. Disgwylir i'r mwyafrif - 24 allan o 28 - o'r grwpiau galwedigaethol weld twf mewn cyflogaeth dros y pum mlynedd hyd at 2018.

Mae'r ARR ar gyfer Cymru, sef 3,570, yn cyfateb i 3.5% o gyflogaeth sylfaen 2014. Mae hyn yn sylweddol uwch na ffigur y DU, sef 1.5%. Fodd bynnag, yn draddodiadol, mae gan Gymru ARR mawr gan ei bod yn dueddol o brofi all-lifau net sylweddol o'i gweithlu adeiladu i ranbarthau a gwledydd datganoledig eraill, yn enwedig gogledd-orllewin a de-orllewin Lloegr.

Disgwylir i allbwn y diwydiant adeiladu yng Nghymru gynyddu 3.4% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd nesaf hyd at 2018

**Cymhariaeth ranbarthol 2014-2018**

| | Newid canrannol cyfartalog blynyddol mewn allbwn | Newid yng nghyfanswm nifer y swyddi | Cyfanswm ARR |
|---|---|---|---|
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 2.4% | 2,660 | 2,680 |
| Swydd Efrog a Humber | 2.2% | 8,590 | 3,170 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 1.1% | 5,910 | 1,980 |
| Dwyrain Lloegr | 3.0% | 24,220 | 5,150 |
| Llundain Fwyaf | 2.0% | 27,490 | 1,290 |
| De-ddwyrain Lloegr | 2.9% | 28,900 | 1,600 |
| De-orllewin Lloegr | 3.5% | 16,700 | 6,370 |
| Cymru | 3.4% | 9,490 | 3,570 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 0.8% | -2,090 | 380 |
| Gogledd Iwerddon | 2.3% | 3,400 | 1,280 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 1.3% | 10,300 | 2,970 |
| Yr Alban | 2.0% | 12,240 | 5,960 |
| y DU | 2.2% | 147,810 | 36,400 |

Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2


# 2 Y rhagolwg ar gyfer y diwydiant adeiladu yng Nghymru

## 2.1 Allbwn adeiladu yng Nghymru – trosolwg

Ar ôl dwy flynedd o dwf, amcangyfrifir bod allbwn mewn termau real wedi gostwng 10% yn 2012 i ychydig o dan £3.5bn yn ôl prisiau 2005. Ymddengys fod allbwn adeiladu mewn termau real yng Nghymru wedi cyrraedd ei uchafbwynt yn 2004 yn hytrach na 2007, fel y gwnaeth ar gyfer y rhan fwyaf o ranbarthau a gwledydd datganoledig eraill, ac roedd yr alldro yn 2012 28% yn is na'r uchafbwynt hwn. Gostyngodd gwaith newydd 14%, tra gwelwyd cynnydd o 2% mewn gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

O'r sectorau gwaith newydd, dim ond y sector diwydiannol (cynnydd o 14% mewn allbwn) a'r sector masnachol (cynnydd bach o 1% mewn allbwn) a welodd unrhyw dwf.  Fodd bynnag, erys gwaith adeiladu diwydiannol ar lefelau hanesyddol isel yng Nghymru, felly roedd y cynnydd o 14% mewn gweithgarwch yn cyfateb i ddim ond £15m o ran gwerth.

**Allbwn adeiladu 1996-2012 – Cymru**




Ffynhonnell: SYG
cyf. Esboniо CSN, Adran 3, Nodyn 1


## 2.2 Strwythur y diwydiant

Mae'r diagram, Strwythur y Diwydiant Adeiladu 2012 - y DU o gymharu â Chymru, yn dangos dadansoddiad o'r diwydiant yng Nghymru fesul sector o gymharu â'r DU gyfan. I bob diben, mae'r canrannau ar gyfer pob sector yn dangos cyfran o gyfanswm yr allbwn y mae pob sector yn cyfrif amdani.

Yn gyffredinol, roedd strwythur y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn debyg i strwythur y DU gyfan yn 2012. Y prif wahaniaethau yw sector cyhoeddus nad yw ar gyfer tai mwy ar gyfartaledd yng Nghymru o gymharu â'r DU (14% o gymharu â 10%) a sector gwaith atgyweirio a chynnal a chadw nad yw ar gyfer tai llai ar gyfartaledd yng Nghymru o gymharu â'r DU gyfan (15% o gymharu ag 20%).

Golyga hyn fod y gwaith newydd yn cymryd cyfran fwy o allbwn yng Nghymru (69%) o gymharu â'r DU gyfan (64%).

**Strwythur y diwydiant adeiladu 2012 – Cymru o'i chymharu â'r DU**




Ffynhonnell: SYG, Experian

## 2.3 Trosolwg economaidd

Mae perfformiad disgwyliedig economi ranbarthol neu genedlaethol dros gyfnod y rhagolwg (2014-2018) yn rhoi syniad o'r sectorau adeiladu lle y mae'r galw mwyaf yn debygol o fod.

## 2.4 Strwythur economaidd

Cyfanswm gwerth ychwanegol crynswth (GVA) yng Nghymru yn 2012 oedd £46.4bn (prisiau 2010), sef gostyngiad o 1.1% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae GVA yng Nghymru yn dal i fod bron 5% yn is na'r lefel uchaf a welwyd yn 2007.

Ac eithrio amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, sy'n sector bach iawn, gwelwyd y twf mwyaf ar gyfer llety, gwasanaethau bwyd a hamdden (4.4%), er bod y rhain hefyd yn cyfrif am ran gymharol fach o economi Cymru (dim ond 4.3% o GVA yn 2012). O blith y pum sector mwyaf yng Nghymru, dim ond gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill a welodd unrhyw dwf, a dim ond twf bach o 0.2% a welwyd yn achos yr olaf. Gostyngodd allbwn gweithgynhyrchu 2% a chyfanwerthu a manwerthu 2.3%.

Erys economi Cymru yn fwy dibynnol o lawer ar wasanaethau cyhoeddus na'r DU gyfan, gyda'r sector yn cyfrif am 24.5% o allbwn Cymru yn 2012, o gymharu â 19.2% ar gyfer y DU gyfan. Erys gweithgynhyrchu hefyd yn sector pwysicach o lawer yng Nghymru o gymharu â'r DU gyfan (16.6% o gymharu â 10.3%), tra bod gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill a chyllid ac yswiriant yn sectorau llai ar gyfartaledd yng Nghymru.

**Strwythur economaidd – Cymru (£ biliwn, prisiau 2010)**

| Sectorau dethol | Gwirioneddol | Rhagamcan<br>*Newid canrannol blynyddol, termau real* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 11.4 | 2.0 | 0.3 | 0.3 | 0.7 | 0.9 | 1.4 |
| Gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill | 9.5 | 2.0 | 2.0 | 2.1 | 2.3 | 2.3 | 2.2 |
| Gweithgynhyrchu | 7.7 | -1.7 | 1.8 | 0.9 | 1.0 | 0.9 | 0.7 |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 5.0 | 3.9 | 2.1 | 1.9 | 2.1 | 1.9 | 1.9 |
| Cyllid ac Yswiriant | 2.5 | -0.7 | 0.9 | 1.5 | 2.1 | 1.9 | 1.7 |
| Cyfanswm y Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) | 46.4 | 0.8 | 1.4 | 1.4 | 1.7 | 1.6 | 1.7 |

Nodyn: Y 5 sector uchaf, heb gynnwys adeiladu. Ffynhonnell: Experian. Cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 3

## 2.5 Dangosyddion economaidd sy'n edrych i'r dyfodol

Amcangyfrifir bod economi Cymru wedi dechrau tyfu eto yn 2013, gyda chynnydd o 0.8% mewn GVA, wedi'i ysgogi'n bennaf gan y sectorau cyfanwerthu a manwerthu (3.9%), gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill (2%) a gwasanaethau cyhoeddus (2%).

Rhagwelir y bydd economi Cymru yn tyfu ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 1.6% dros y pum mlynedd hyd at 2017, islaw cyfartaledd y DU o 2%. O blith y pum sector mwyaf yng Nghymru, rhagwelir mai'r sector gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill fydd yn gwneud orau, gyda thwf cyfartalog blynyddol o 2.2%, yna'r sector cyfanwerthu a manwerthu gyda thwf o 2% ac yna'r sector cyllid ac yswiriant gydag 1.6%. Disgwylir i'r twf yn y sector gweithgynhyrchu aros yn isel ar ddim ond 1.1% y flwyddyn ar gyfartaledd a rhagwelir y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gweld twf cyfartalog blynyddol o ddim ond 0.7% wrth i'r cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus barhau i frathu.

O'r sectorau sy'n cyfrif am fwy nag 1% o GVA, rhagwelir y twf mwyaf yn y sector gwybodaeth a chyfathrebu, sef 2.5% y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r sector hwn wedi gweld twf eithaf cryf ledled y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf a disgwylir i'r sefyllfa honno barhau, gyda'r sector yn symud i'r pum sector uchaf mewn rhai rhanbarthau a gwledydd datganoledig erbyn 2018, ond nid yng Nghymru.

Yn ôl y rhagolygon cyfredol, disgwylir i lefelau GVA yng Nghymru ddychwelyd i'r lefelau uchaf a welwyd yn 2007 yn 2016.


Amcangyfrifir bod incwm gwario real aelwydydd wedi gostwng ychydig dros 1% yn 2013 ond bod gwariant aelwydydd wedi codi 1.5%, gan awgrymu bod defnyddwyr wedi bod yn defnyddio eu cynilion a/neu gynyddu lefel eu dyledion yn ystod y flwyddyn. Disgwylir i incwm gwariant real aelwydydd ddechrau tyfu eto yn 2014 gyda chynnydd cyfartalog o 1.3% y flwyddyn dros gyfnod y rhagolwg. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd gwariant aelwydydd yn cynyddu 1.9% y flwyddyn ar gyfartaledd dros yr un cyfnod, gan awgrymu y caiff mwy o gynilion eu defnyddio a chynnydd mewn dyled bersonol.

**Dangosyddion economaidd – Cymru (£ biliwn, prisiau 2009 – oni nodir yn wahanol)**

| | Gwirioneddol | Rhagamcan<br>*Newid canrannol blynyddol, termau real* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
| Incwm gwario gwirioneddol cartrefi | 42.48 | -1.1 | 0.8 | 0.9 | 1.3 | 1.6 | 1.8 |
| Gwariant cartrefi | 40.13 | 1.5 | 1.5 | 1.7 | 2.1 | 2.1 | 2.1 |
| Poblogaeth o oedran gweithio (000oedd ac fel % o'r cyfanswm) | 1,805 | 59.9% | 60.2% | 60.6% | 60.8% | 61.0% | 61.0 |
| Prisiau tai (£) | 156,070 | 1.1 | 1.0 | 1.8 | 1.9 | 2.1 | 2.4 |
| Diweithdra LFS (miliynau) | 0.13 | -2.78 | -2.44 | -8.42 | -5.17 | -4.70 | -5.51 |

Ffynhonnell: SYG, DCLG, Experian

**Twf mewn archebion adeiladu newydd 1996-2012 – Cymru o'i chymharu â Phrydain Fawr**




Ffynhonnell: SYG
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 4

Amcangyfrifwyd bod 1.8 miliwn o bobl o oedran gweithio yng Nghymru yn 2012, sy'n cyfateb i 59.5% o gyfanswm y boblogaeth. Disgwylir i'r gyfran hon o gyfanswm y boblogaeth dyfu'n araf a chyrraedd 61% erbyn 2018. Amcangyfrifwyd mai 8.3% oedd cyfradd diweithdra yr Arolwg o'r Llafurlu/y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yng Nghymru yn 2013. Roedd hyn yn uwch na chyfartaledd y DU (7.8%), ond disgwylir i'r gyfradd ostwng i 6.2% erbyn 2018.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd prisiau tai wedi'u haddasu yn ôl yr amrywiaeth o eiddo yn 156,070 ar gyfartaledd yn 2012, sef cynnydd o 4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rhagwelir y bydd prisiau'n cynyddu rhwng 1% a 2.4% y flwyddyn dros y pum mlynedd hyd at 2018.

## 2.6 Archebion ar gyfer gwaith adeiladu newydd - trosolwg

Mae lefel archebion ar gyfer gwaith adeiladu newydd wedi bod yn gyfnewidiol iawn yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar ôl blwyddyn sefydlog yn 2010, er ar lefel isel, gwnaeth archebion ostwng bron draean yn 2011 i'w lefelau isaf ers 1993, cyn codi bron 50% yn 2012 i ychydig o dan £2.1bn yn ôl prisiau cyfredol.

Gwelwyd twf ym mhob sector yn 2012 ac eithrio tai cyhoeddus, gyda nifer yr archebion newydd yn y sector seilwaith yn cynyddu dros ddwywaith a hanner i £493m yn ôl prisiau cyfredol, sef eu lefel uchaf ers 2005.

Gwelwyd twf mawr hefyd mewn archebion newydd yn y sector tai preifat (43%), y sector cyhoeddus nad yw ar gyfer tai (32%) a'r sector masnachol (29%). Yn sgil y gostyngiad o 2% yn y sector tai cyhoeddus yn 2012, gostyngodd archebion newydd islaw £100m am y tro cyntaf ers 2008.

## 2.7 Archebion ar gyfer gwaith adeiladu newydd - y sefyllfa sydd ohoni

Parhaodd y cynnydd mewn archebion newydd yn ystod hanner cyntaf 2013, gan argoeli'n dda ar gyfer allbwn y flwyddyn honno, gyda'u lefel yn cyrraedd £1.3bn yn ôl prisiau cyfredol, cynnydd o 25% o gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2012. Gwelwyd twf arbennig o gryf yn y sector tai preifat, gyda chynnydd o 58% mewn archebion newydd dros yr un cyfnod. Gwelwyd cynnydd o 45% mewn archebion ar gyfer y sector cyhoeddus nad yw ar gyfer tai a chynnydd o 23% ar gyfer y sector masnachol hefyd.

I'r gwrthwyneb, gwelwyd gostyngiad pellach o 28% mewn archebion newydd ar gyfer y sector tai cyhoeddus yn hanner cyntaf 2013, o gymharu â'r un cyfnod yn 2012.

**Archebion gwaith adeiladu newydd – Cymru (£ miliwn, prisiau cyfredol)**

| | Gwirioneddol | Newid canrannol blynyddol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 |
| Tai cyhoeddus | 98 | -13.6 | 53.9 | 31.4 | -44.4 | -2.0 |
| Tai preifat | 459 | -61.5 | -8.1 | 126.5 | -40.3 | 42.5 |
| Seilwaith | 493 | 57.1 | 11.7 | -29.1 | -37.7 | 159.5 |
| Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 499 | 14.9 | -18.2 | -14.6 | -21.7 | 31.7 |
| Diwydiannol | 82 | -48.2 | 48.4 | -68.6 | -1.4 | 12.3 |
| Masnachol | 462 | -33.4 | -30.0 | 12.1 | -32.0 | 28.7 |
| Cyfanswm y gwaith newydd | 2,094 | -23.3 | -8.0 | 1.4 | -32.5 | 47.2 |

Ffynhonnell: SYG. Cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 4

**Allbwn adeiladu 2014-2015 – Cymru (£ miliwn, prisiau 2005)**

| | Gwirioneddol | Newid canrannol blynyddol rhagamcanol | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2014-15 |
| Tai cyhoeddus | 155 | -12% | -2% | 4% | 1.0% |
| Tai preifat | 477 | 13% | 8% | 6% | 7.0% |
| Seilwaith | 404 | 12% | 5% | 12% | 8.6% |
| Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 469 | 13% | -6% | 2% | -2.1% |
| Diwydiannol | 120 | -24% | 3% | 5% | 4.1% |
| Masnachol | 772 | -7% | -6% | -1% | -3.1% |
| Gwaith newydd | 2,397 | 3% | 0% | 4% | 2.1% |
| R&M sy'n ymwneud â thai | 557 | 3% | -1% | 7% | 3.0% |
| R&M nad yw'n ymwneud â thai | 536 | 14% | -2% | 2% | 0.1% |
| Cyfanswm R&M | 1,094 | 8% | -1% | 4% | 1.5% |
| Cyfanswm y gwaith | 3,491 | 5% | -1% | 4% | 1.9% |

Ffynhonnell: Experian. Cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodiadau 1 a 2

## 2.8 Allbwn adeiladu - rhagolygon byrdymor (2014-2015)

Cyhoeddir ystadegau allbwn rhanbarthol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn ôl prisiau cyfredol ac felly maent yn cynnwys unrhyw effaith chwyddiannol. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, dim ond ar gyfer dau chwarter cyntaf 2013 yr oedd ystadegau allbwn adeiladu SYG ar gael.

Cyfanswm yr allbwn adeiladu yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf 2013 oedd £2.19bn yn ôl prisiau cyfredol, sef cynnydd o 13% o gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2012, ond dim ond 2% o gymharu ag ail hanner y flwyddyn honno. Mae'r gostyngiad mewn archebion newydd yn y sector tai cyhoeddus eisoes yn cael effaith ar allbwn, gyda gostyngiad o 19% yn yr alldro ar gyfer hanner cyntaf 2013 o gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2012.


Fodd bynnag, mae pob sector adeiladu arall, ac eithrio'r sector diwydiannol, wedi gweld cynnydd mewn allbwn o ran yr un mesur. Y sectorau cryfaf yw'r sector gwaith atgyweirio a chynnal a chadw nad yw ar gyfer tai (cynnydd o 27%), y sector tai preifat (23%) a'r sector cyhoeddus nad yw ar gyfer tai (19%). Yn ystod 2013, amcangyfrifir bod allbwn adeiladu yng Nghymru wedi tyfu 5% mewn termau real.

Rhagwelir y bydd bwlch mewn twf yn 2014 ond, yn ystod y cyfnod 2014-2015, disgwylir i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru weld cynnydd cyfartalog blynyddol o 1.9%, gyda gwaith newydd (2.1%) yn gweld cynnydd uwch na gwaith atgyweirio a chynnal a chadw (1.5%).

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chyllideb derfynol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014-2015 a 2015-2016 a dengys y gyllideb hon gynnydd o 24% mewn terfynau gwariant cyfalaf adrannol rhwng 2013-2014 a 2014-2015, o £1.147bn i £1.423bn. Fodd bynnag, yn 2015-2016, bydd gostyngiad o 5% yn y gyllideb cyfalaf i £1.350bn.

Ymhlith rhai o fuddiolwyr mwyaf y cynnydd mewn dyraniadau cyfalaf rhwng 2013-2014 a 2014-2015 mae'r gwahanol gyllidebau trafnidiaeth - gweithrediadau traffyrdd a phriffyrdd, cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd, teithio cynaliadwy, a gwaith cynnal a chadw a gwella'r seilwaith ffyrdd lleol - y rhagwelir y byddant yn cynyddu 36%, o £212m yn 2013-2014 i £289m yn 2014-2015. Mae cynnydd pellach o 5% i £301m wedi'i gynllunio ar gyfer 2015-2016.

**Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu 2014-2015 – Cymru**




Ffynhonnell: Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2

Y proffil gwariant cyfalaf hwn ar drafnidiaeth fydd yn ysgogi twf cyfartalog blynyddol o 8.6% mewn allbwn seilwaith yn y byrdymor. Mae nifer o brosiectau rhesymol eu maint yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, gan gynnwys Adran 3 o brosiect deuoli'r A465 (Ffordd Blaenau'r Cymoedd), cynllun gwella'r A477 rhwng Sanclêr a Rhosgoch, a'r gwaith o uwchraddio twnelau ar yr A55 ger Conwy. Yn ogystal, bydd y gwaith o drydaneiddio llinellau'r cymoedd a phrif linell Great Western o Gaerdydd i Ben-y-bont ar Ogwr yn mynd rhagddo yn 2015. Bydd y gwaith hwnnw yn werth dros £300m.

Bydd y gyllideb tai ac adfywio hefyd yn elwa'n fawr o'r cynnydd mewn dyraniadau cyfalaf rhwng 2013-2014 a 2014-2015, gyda chynnydd o 23% o £275m i £366m. Serch hynny, disgwylir i'r swm ostwng i £349m yn 2015-2016. Caiff rhan o'r gyllideb hon ei defnyddio i gynyddu nifer y tai fforddiadwy a gwella'r dewis sydd ar gael: £53m yn 2013-2014, gan godi i £72m yn 2014-2015 cyn gostwng i £62m yn y flwyddyn ganlynol. Felly, disgwylir i'r gostyngiadau mawr mewn allbwn tai cyhoeddus a welwyd yn 2012 a 2013 ddod i ben, er mai twf o 1% yn unig a ragwelir ar gyfer y byrdymor wrth i effaith y gostyngiadau cynharach barhau.

I'r gwrthwyneb, rydym yn disgwyl twf mawr mewn allbwn tai preifat yn y byrdymor. Disgwylir gweld twf o tua 7% y flwyddyn rhwng 2014 a 2015. Fel y soniwyd yn yr adran ar archebion newydd, gwelwyd twf mawr yn yr archebion hyn a thai newydd, a gyrhaeddodd 2,890 yn ystod hanner cyntaf 2013. Roedd hyn 12% yn uwch o gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2012 (ni chaiff tai newydd yng Nghymru eu dadgyfuno mwyach rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ond dengys data hanesyddol mai'r ochr breifat yw'r elfen fwyaf o bell ffordd). Yn ddiau, mae cynlluniau fel Cymorth i Brynu wedi bod yn ysgogi galw yn y sector ac, ar y cyd ag amodau economaidd sy'n gwella'n gyffredin, dylent ddarparu llwyfan ar gyfer twf da yn y farchnad dai.


Yn gyffredinol, disgwylir i waith adeiladu masnachol ostwng 3.1% yn flynyddol ar gyfartaledd yn y byrdymor er y rhagwelir y bydd y gostyngiad yn arafu i tua 1% erbyn 2015 wrth i brosiectau arfaethedig, fel y trac rasio ceir newydd ger Glynebwy, fynd rhagddynt tuag at ddiwedd y cyfnod hwn. Mae'r datblygiad manwerthu gwerth £200m yn Nhonysguboriau yn y de wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol yn ddiweddar, er nad oes dyddiad dechrau wedi'i gadarnhau eto. Yn ddiweddar, enillodd Bouygues gontract gwerth £20m i adfywio Canolfan Maelfa yn Llanedeyrn a gallai'r gwaith hwnnw ddechrau yn 2014.

## 2.9 Allbwn adeiladu – rhagolygon hirdymor (2014-2018)

Disgwylir mai'r diwydiant adeiladu yng Nghymru fydd â'r gyfradd twf fwyaf ond un o blith yr holl ranbarthau a gwledydd datganoledig, gyda chyfradd gyfartalog flynyddol o 3.4% rhwng 2014 a 2018. Dim ond de-orllewin Lloegr fydd yn gweld twf uwch, sef 3.5%. Fodd bynnag, mae'r gyfradd twf gref hon yn seiliedig, i raddau helaeth, ar orsaf ynni niwclear Wylfa yn Ynys Môn er gwaethaf y ffaith bod dyddiad dechrau'r prif waith ar gyfer y prosiect wedi'i ohirio tan ganol 2017 (o ganol 2015 yn rhagolwg y llynedd ar gyfer y cyfnod 2013 i 2017). Awgryma cyhoeddiadau diweddar gan Horizon, y consortiwm a arweinir gan Hitachi sy'n datblygu'r prosiect, na fydd y prif waith yn dechrau, o bosibl, tan ddechrau 2018, ond bydd digon o weithgarwch rhagarweiniol i ddarparu llif allbwn boddhaol ar gyfer y flwyddyn cynt. Pe na bai prosiect Wylfa'n mynd rhagddo, yna byddai'r gyfradd twf gyfartalog flynyddol ar gyfer allbwn adeiladu yn gostwng i 2.5% a byddai'r gyfradd gyfatebol ar gyfer seilwaith yn gostwng o 11% i 5.4%.

Rhagwelir y bydd twf cyfartalog blynyddol cryf o 5.3% yn y sector tai preifat dros gyfnod y rhagolwg. Y prosiect tai mwyaf sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ac sy'n debygol o fynd rhagddo am gryn amser i ddod, yw datblygiad Coed Darcy. Disgwylir iddo ddarparu 4,000 o gartrefi newydd yn ardal Castell-nedd dros yr 20 mlynedd nesaf. Disgwylir i'r cynllun fod yn werth cyfanswm o £1.2bn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi rhywfaint o gymorth ariannol i ddatblygu gwaith adfywio gwerth £75m ym Merthyr Tudful, Casnewydd ac Abertawe, ac mae hyn yn annog datblygwyr preifat i ddatblygu prosiectau newydd. Dylai hyn fod o fudd i'r sector adeiladu preswyl yn ogystal â'r un masnachol.

**Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu 2014-2018 – Cymru**




Ffynhonnell: Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2

**Allbwn adeiladu 2014-2018 – Cymru (£ miliwn, prisiau 2005)**

| | Amcangyfrif | Newid canrannol blynyddol rhagamcanol | | | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2014-18 |
| Tai cyhoeddus | 136 | -2% | 4% | 1% | 2% | 5% | 1.9% |
| Tai preifat | 541 | 8% | 6% | 3% | 4% | 5% | 5.3% |
| Seilwaith | 453 | 5% | 12% | 10% | 14% | 14% | 11.0% |
| Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 529 | -6% | 2% | 3% | 2% | 4% | 1.0% |
| Diwydiannol | 91 | 3% | 5% | 2% | 2% | 1% | 2.5% |
| Masnachol | 718 | -6% | -1% | 3% | 3% | 4% | 0.7% |
| Gwaith newydd | 2,468 | 0% | 4% | 4% | 5% | 7% | 4.1% |
| R&M sy'n ymwneud â thai | 574 | -1% | 7% | 3% | 4% | 3% | 3.5% |
| R&M nad yw'n ymwneud â thai | 611 | -2% | 2% | 1% | 1% | -1% | 0.2% |
| R&M | 1,185 | -1% | 4% | 2% | 3% | 1% | 1.8% |
| Cyfanswm y gwaith | 3,653 | -1% | 4% | 4% | 4% | 5% | 3.4% |

Ffynhonnell: CSN, Experian
Cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2

Rhagwelir y bydd y sector adeiladu masnachol yn dechrau tyfu eto yn 2016 yn sgil rhai o'r prosiectau y soniwyd amdanynt yn yr adran flaenorol. Disgwylir gwaith datblygu hefyd ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Bae Caerdydd dros gyfnod y rhagolwg. Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol yn ddiweddar ar gyfer camau o'r cynllun gwerth £250m sy'n cynnwys llethr sgïo dan do 250 metr ag eira go iawn, maes parcio aml-lawr i 1,300 o geir a gwesty rhad â 115 o ystafelloedd gwely. Caiff siopau, bwytai a bariau eu hychwanegu'n ddiweddarach gan fod yn rhaid cwblhau'r llethr sgïo a'r maes parcio yn gyntaf. Fodd bynnag, dim ond twf cyfartalog blynyddol bach o 0.7% a ragwelir dros gyfnod y rhagolwg.

Disgwylir y caiff effaith y toriadau mewn gwariant cyhoeddus ei theimlo yng Nghymru erbyn diwedd 2014, a dim ond twf bach a ragwelir wedi hynny, o ystyried cyfradd twf gyfartalog flynyddol o 1% dros gyfnod y rhagolwg. Dengys cyllideb 2014-2015, a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013, derfyn gwariant cyfalaf adrannol o £282m ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, sy'n gynnydd o 16% o gymharu â 2013-2014. Fodd bynnag, disgwylir iddo ostwng i £235m yn 2015-2016. Mae'r patrwm ar gyfer addysg a sgiliau i'r gwrthwyneb, gyda gostyngiad o 13% i £154m yn 2014-2015, ond wedyn cynnydd o 13% yn 2015-2016. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rhoddwyd tua £225m o arian ychwanegol i raglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif er mwyn cyflymu prosiectau adeiladu. Bellach, disgwylir i'r rhaglen gael ei chwblhau yn 2018-2019 yn hytrach na 2020-2021, a dylai hyn arwain at fwy o fuddsoddiad yn ystod cyfnod y rhagolwg hwn.

Un o'r prosiectau arfaethedig mwyaf yn y sector cyhoeddus nad yw ar gyfer tai yw'r carchar mawr y bwriedir ei adeiladu yn Wrecsam. Disgwylir i'r gwaith ddechrau yn 2014 a chael ei gwblhau yn 2017, am gost o £250m. Pan gaiff ei gwblhau, hwn fydd y carchar mwyaf yng Nghymru a Lloegr.

## 2.10 Y Tu Hwnt i 2018

Er bod prosiect adeiladu niwclear newydd Wylfa wedi'i grybwyll yn yr adran flaenorol, o ystyried ei ddyddiad dechrau tebygol tuag at ddiwedd cyfnod y rhagolwg hwn, bydd yn creu llif allbwn cryf iawn ymhell i mewn i'r 2020au. Yn ôl y llinellau amser cyfredol a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA), bydd y gwaith adeiladu yn parhau tan 2024 ac, o bosibl, hyd yn oed yn hwyrach na hynny.

Yn 2013, lluniwyd cynlluniau newydd ar gyfer prosiect ynni llanw Morglawdd Hafren gan gonsortiwm a arweiniwyd gan Hafren Power. Fodd bynnag, yng nghanol 2013, penderfynodd Pwyllgor Ynni a Newid Hinsawdd Tŷ'r Cyffredin na allai argymell y cynllun a chafodd ei wrthod gan weinidogion yng nghanol mis Medi gan nad oedd yn dangos y gallai gyflawni'r buddiannau yr oedd yn honni y byddai'n eu cyflawni. Fodd bynnag, o gofio bod morglawdd ar gyfer Aber Hafren wedi'i grybwyll gyntaf yn 1847, mae'n debygol y daw cynigion newydd i law yn y dyfodol.

Rhagwelir y bydd cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn tyfu ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 1.8% dros y pum mlynedd hyd at 2018, yn uwch na chyfradd y DU sef 1.2% ond yn sylweddol is na chyfradd twf allbwn

# 3 Rhagolygon cyflogaeth ar gyfer y diwydiant adeiladu yng Nghymru

## 3.1 Rhagolygon ar gyfer cyfanswm cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu yn ôl galwedigaeth

Mae'r tabl yn nodi cyflogaeth wirioneddol ar gyfer y diwydiant adeiladu (SICs 41-43, 71.1 a 74.9) yng Nghymru yn 2012, cyfanswm amcangyfrifedig cyflogaeth ar draws 28 o gategorïau galwedigaethol yn 2013 a rhagolygon ar gyfer y diwydiant rhwng 2014 a 2018. Ceir dadansoddiad llawn o grwpiau galwedigaethol yn Adran 5 o Esbonio CSN.

Rhagwelir y bydd cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn tyfu ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 1.8% dros y pum mlynedd hyd at 2018, yn uwch na chyfradd y DU sef 1.2% ond yn sylweddol is na chyfradd twf allbwn. Er y byddai disgwyl, yn gyffredinol, i dwf cyflogaeth fod yn llai na thwf allbwn, byddai twf cynhyrchiant ymhlyg o 1.6% yn cael ei ystyried yn uchel ar gyfer y diwydiant adeiladu. Fodd bynnag, fel y soniwyd yn flaenorol, prosiect adeiladu niwclear newydd Wylfa sy'n ysgogi'r twf allbwn cryf a, chan na ragwelir y bydd y gwaith yn dechrau tan ddiwedd cyfnod y rhagolwg a bod dwyster llafur y gwaith yn gymharol isel, mae'n cael llawer llai o effaith ar gyflogaeth o gymharu ag allbwn. Fel y nodwyd yn gynharach, 2.5% y flwyddyn ar gyfartaledd fyddai'r twf allbwn sylfaenol heb gynnwys Wylfa, o ystyried cyfradd twf cynhyrchiant ymhlyg o 0.7% y flwyddyn, sy'n fwy cydnaws â'r disgwyliadau.

Rhagwelir y bydd cyflogaeth ar gynnydd eto yn 2014 ac yn ehangu'n raddol dros gyfnod y rhagolwg.

Crefftau pren a dodrefnu mewnol yw'r alwedigaeth grefft fwyaf o bell ffordd yng Nghymru, gan gyfrif am 12.8% o gyfanswm y swyddi adeiladu yn 2012. Mae'r ffigur hwn llawer yn uwch na'r DU gyfan (9.9%). Dim ond twf bach (1.9% y flwyddyn ar gyfartaledd) y disgwylir i'r grŵp galwedigaethol ei weld mewn cyflogaeth rhwng 2014 a 2018. Rhagwelir y bydd y twf mwyaf ar gyfer sgaffaldwyr (8.2% y flwyddyn ar gyfartaledd) a syrfewyr (6.5% y flwyddyn). Rhagwelir y bydd y mwyafrif helaeth o grwpiau galwedigaethol (24 allan o 28) yn gweld rhywfaint o dwf mewn cyflogaeth dros gyfnod y rhagolwg.

## 3.2 Gofynion recriwtio blynyddol (ARR) yn ôl galwedigaeth

Gofyniad gros yw'r ARR sy'n ystyried llifau'r gweithlu i mewn ac allan o'r diwydiant adeiladu oherwydd ffactorau fel symudiadau rhwng diwydiannau, mudo, salwch ac ymddeoliad. Fodd bynnag, oherwydd

**Cyfanswm y swyddi yn ôl galwedigaeth – Cymru**

| | Gwirioneddol | Amcangyfrif | Rhagamcan | |
|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2018 |
| Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes | 3,310 | 2,960 | 3,030 | 3,400 |
| Rheolwyr project adeiladu | 1,350 | 1,470 | 1,490 | 1,570 |
| Rheolwyr proses adeiladu eraill | 6,920 | 7,060 | 7,190 | 7,680 |
| Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill, nad ydynt yn staff adeiladu | 11,720 | 11,500 | 11,500 | 11,770 |
| Goruchwylwyr crefftau adeiladu | 2,230 | 1,990 | 1,970 | 1,880 |
| Crefftau pren a gwaith gosod mewnol | 13,540 | 12,180 | 12,440 | 13,360 |
| Bricwyr | 6,050 | 5,480 | 5,550 | 5,920 |
| Arbenigwyr amlen adeiladu | 4,630 | 4,530 | 4,560 | 4,770 |
| Peintwyr ac addurnwyr | 4,920 | 5,120 | 5,140 | 5,310 |
| Plastrwyr | 4,100 | 3,660 | 3,740 | 4,080 |
| Towyr | 1,170 | 1,180 | 1,240 | 1,460 |
| Llorwyr | 110 | 100 | 100 | 110 |
| Gwydrwyr | 580 | 520 | 510 | 490 |
| Gweithwyr adeiladu arbenigol (nec*) | 3,690 | 4,030 | 4,110 | 4,450 |
| Sgaffaldwyr | 660 | 660 | 720 | 980 |
| Gweithwyr cyfarpar | 1,800 | 1,820 | 1,860 | 2,050 |
| Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar | 1,140 | 1,020 | 1,040 | 1,110 |
| Adeiladwyr dur/strwythurol | 1,250 | 1,110 | 1,120 | 1,140 |
| Llafurwyr (nec*) | 4,920 | 4,680 | 4,490 | 4,680 |
| Crefftau trydanol a gosod | 6,920 | 6,200 | 6,360 | 6,990 |
| Plymio a Chrefftau HVAC | 8,890 | 7,940 | 8,220 | 9,150 |
| Logisteg | 770 | 690 | 700 | 720 |
| Gweithwyr peirianneg sifil (nec*) | 1,310 | 1,330 | 1,350 | 1,470 |
| Gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu | 1,450 | 1,300 | 1,270 | 1,170 |
| Peirianwyr sifil | 1,810 | 1,790 | 1,850 | 2,090 |
| Staff technegol a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill | 4,950 | 4,910 | 5,030 | 5,450 |
| Penseiri | 1,140 | 1,250 | 1,260 | 1,310 |
| Syrfewyr | 4,170 | 3,730 | 4,050 | 5,100 |
| Cyfanswm (SIC 41-43) | 93,430 | 88,530 | 89,700 | 95,710 |
| Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9) | 105,500 | 100,210 | 101,890 | 109,660 |

Ffynhonnell: SYG, CSN, Experian. Cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodiadaus 5 a 6

*(nec) - heb ei ddosbarthu mewn man arall

anghysondeb a chwmpas y data a gyflenwir, nid yw'r llifau hyn yn cynnwys symudiadau i mewn i'r diwydiant o weithgarwch hyfforddi. Felly, mae'r gofyniad recriwtio blynyddol yn rhoi syniad o nifer y cyflogeion newydd y byddai angen eu recriwtio i'r diwydiant adeiladu bob blwyddyn er mwyn gwireddu'r allbwn a ragwelir.

Nodir yr ARR ar gyfer y 28 o alwedigaethau o fewn y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn y tabl. Mae'r ffigur o 3,570 yn arwydd o'r gofynion cyfartalog blynyddol yn y diwydiant, yn seiliedig ar yr allbwn a ragwelir ar gyfer Cymru. Mae hyn yn ystyried 'y mynd a'r dod' h.y. y llifau i mewn ac allan o'r diwydiant, ac eithrio llifau hyfforddiant.

Mae'r ARR ar gyfer Cymru yn cyfateb i 3.5% o gyflogaeth sylfaen rhagamcanol 2014, mae'n sylweddol uwch na chyfartaledd y DU (1.5%) a'r ARR hwn yw'r cryfaf o blith unrhyw un o'r rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig. Dyma'r hyn sy'n digwydd yn draddodiadol, gan fod Cymru yn dueddol o weld all-lifau net o weithwyr adeiladu i ranbarthau a gwledydd datganoledig eraill, yn enwedig i dde-orllewin a gogledd-orllewin Lloegr yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu. Gwelwyd rhagor o dystiolaeth o hyn o ddata'r Arolwg a gynhaliwyd gan CITB yn 2012 o Symudedd a Sgiliau'r Gweithlu. Yn ôl yr arolwg, roedd 86% o'r gweithlu adeiladu yng Nghymru yn dod o'r wlad, yr ail gyfran fwyaf ar ôl Gogledd Iwerddon (96%). Drwy gymhwyso'r gyfran hon o 86% i ddata Arolwg y Llafurlu 2012 ar gyfer Cymru, awgrymir bod ychydig o dan 15,000 o'r rheini a oedd yn gweithio yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn 2012 yn dod o fannau eraill. Fodd bynnag, mae cyfrannau gweithluoedd adeiladu rhanbarthau a gwledydd datganoledig eraill a ddaeth o Gymru yn awgrymu bod tua 24,000 o weithwyr adeiladu o Gymru yn cael eu cyflogi mewn rhannau eraill o'r DU yn 2012. Mae hyn yn cynhyrchu all-lif net o 9,000 sy'n gyfran sylweddol mewn marchnad gyflogaeth gymharol fach.

Mewn termau absoliwt, mae'r gofyniad mwyaf ar gyfer crefftau pren a phersonél dodrefnu mewnol (530). Nid yw hyn yn syndod gan mai dyma'r grŵp galwedigaethol mwyaf. Fodd bynnag, fel cyfran o gyflogaeth sylfaen rhagamcanol 2014, mae'r gofyniad mwyaf (bron 10%) ar gyfer towyr a sgaffaldwyr.

Dylid nodi bod pob un o'r ARRs a nodwyd yn yr adran hon yn ofynion cyflogaeth ac nid, o angenrheidrwydd, yn ofynion hyfforddi gan y bydd rhai newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant adeiladu, fel ymfudwyr medrus neu'r rheini o ddiwydiannau eraill lle y mae angen sgiliau tebyg, yn gallu gweithio yn y diwydiant heb fod angen ailhyfforddiant sylweddol arnynt.

Mae gweithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu yn grŵp galwedigaethol amrywiol sy'n cynnwys yr holl weithgareddau o dan ambarél SICs 41-43, 71.1 a 74.9 na ellir eu dosbarthu mewn mannau eraill, fel glanhawyr, galwedigaethau diogelwch elfennol nec (na ddosberthir mewn mannau eraill) ac arolygwyr ac aseswyr rheolaidd. Gall y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y galwedigaethau hyn gael eu trosglwyddo'n hawdd i ddiwydiannau eraill ac mae rhagweld symudiad o'r fath yn beryglus o gofio'r ffaith bod prinder data ategol cadarn. Felly, ni chaiff yr ARR ar gyfer gweithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu ei gyhoeddi.

Yn olaf, ni fydd unrhyw ofyniad sylweddol ar gyfer rhai galwedigaethau dros gyfnod y rhagolwg, yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith bod y dirwasgiad wedi creu 'cronfa' o lafur dros ben.

**Gofyniad recriwtio blynyddol yn ôl galwedigaeth – Cymru**

| | 2014-2018 |
|---|---|
| Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes | 150 |
| Rheolwyr project adeiladu | - |
| Rheolwyr proses adeiladu eraill | - |
| Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill, nad ydynt yn staff adeiladu | 600 |
| Goruchwylwyr crefftau adeiladu | 60 |
| Crefftau pren a gwaith gosod mewnol | 530 |
| Bricwyr | 330 |
| Arbenigwyr amlen adeiladu | 70 |
| Peintwyr ac addurnwyr | 170 |
| Plastrwyr | 70 |
| Towyr | 120 |
| Llorwyr | - |
| Gwydrwyr | - |
| Gweithwyr adeiladu arbenigol (nec*) | - |
| Sgaffaldwyr | 70 |
| Gweithwyr cyfarpar | 60 |
| Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar | 70 |
| Adeiladwyr dur/strwythurol | - |
| Llafurwyr (nec*) | 100 |
| Crefftau trydanol a gosod | 180 |
| Plymio a Chrefftau HVAC | 300 |
| Logisteg | <50 |
| Gweithwyr peirianneg sifil (nec*) | - |
| Gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu | - |
| Peirianwyr sifil | 110 |
| Staff technegol a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill | 350 |
| Penseiri | <50 |
| Syrfewyr | 170 |
| Cyfanswm (SIC 41-43) | 2,900 |
| Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9) | 3,570 |

Ffynhonnell: SYG, CSN, Experian. Cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodiadaus 5 a 6
*(nec) - heb ei ddosbarthu mewn man arall

# 4 Cymariaethau ledled y DU

Disgwylir mai yn ne-orllewin Lloegr a Chymru y bydd y twf mwyaf mewn allbwn adeiladu, gan y bydd y ddau yn elwa o brosiectau adeiladu niwclear newydd yn ystod cyfnod y rhagolwg. Er na ddisgwylir i'r prif waith adeiladu yn Wylfa ddechrau tan ganol 2017 ar y cynharaf, mae hwn yn brosiect mawr iawn mewn marchnad gymharol fach sy'n golygu bod ei effaith ar allbwn adeiladu cyffredinol yn debyg i Hinkley Point yn ne-orllewin Lloegr, er y bydd y gwaith hwnnw'n dechrau dair blynedd yn gynt.

Unwaith y caiff de-orllewin Lloegr a Chymru eu diystyru, y disgwyl unwaith eto yw y bydd cornel de-ddwyrain Lloegr yn gwneud yn well na gweddill y DU. Mae de-ddwyrain Lloegr yn elwa mewn modd anghymesur o dwf yn y farchnad tai preifat sy'n cymryd cyfran uwch o allbwn yn y rhanbarth o gymharu â chyfartaledd y DU (18% o gymharu â 14%). Mae hyn, ar y cyd â chyfradd twf uwch na'r cyfartaledd (5.7% o gymharu â 4.6%), yn helpu'r farchnad adeiladu yn ne-ddwyrain Lloegr i dyfu (gyda chyfradd twf gyfartalog flynyddol o 2.9% hyd at 2018). Mae gan ddwyrain Lloegr gyfradd twf gyfartalog ychydig yn uwch, sef 3% y flwyddyn. Y prif resymau dros y cynnydd mewn allbwn adeiladu yn y rhanbarth, sy'n uwch na'r cyfartaledd, yw twf da yn y sector tai preifat a thwf uwch na'r cyfartaledd mewn seilwaith pan fydd gwaith yn dechrau ar safle prosiect niwclear newydd Sizewell C ar ddechrau 2018. Hefyd, mae cysylltiad rhwng twf cryf ym maes gwaith adeiladu diwydiannol a'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau dosbarthu a logisteg o amgylch Porthladd London Gateway.




Fodd bynnag, yn ddiddorol, mae'r gyfradd twf allbwn gyfartalog flynyddol ragamcanol ar gyfer Llundain Fwyaf (2%) ychydig yn is na chyfartaledd y DU (2.2%). Llundain Fwyaf oedd yr unig ranbarth a welodd dwf mewn allbwn adeiladu mewn termau real dros y pum mlynedd hyd at 2012; felly efallai bod gweithgarwch mewn rhai sectorau yn agos at fod ar ei anterth. Er enghraifft, rhagwelir y bydd gweithgarwch seilwaith yn gostwng 2.4% ar gyfartaledd bob blwyddyn yn y pum mlynedd hyd at 2018 wrth i brosiectau fel Crossrail a Thameslink ddirwyn i ben yn ystod ail hanner cyfnod y rhagolwg.

Er mai de-orllewin Lloegr a Chymru yw'r ardaloedd cryfaf o ran allbwn, nid nhw sydd yn y safleoedd uchaf o ran cyflogaeth. Nid yw gwaith adeiladu niwclear newydd yn arbennig o lafurddwys, gan olygu y bydd Hinkley Point a Wylfa yn cael llawer llai o effaith ar gyflogaeth o gymharu ag allbwn. Dwyrain Lloegr sydd â'r gyfradd twf cyflogaeth gryfaf, sef 2% y flwyddyn ar gyfartaledd dros gyfnod y rhagolwg. Mae dau ffactor yn gyfrifol am hyn - cyfradd twf allbwn gref a chyfran uwch na'r cyfartaledd o'r marchnadoedd atgyweirio a chynnal a chadw llawer mwy llafurddwys yn y rhanbarth o gymharu â'r DU gyfan (45% o gymharu â 36%). Disgwylir i bob ranbarth weld twf mewn cyflogaeth ac eithrio gorllewin canolbarth Lloegr lle nad yw twf allbwn o 0.8% y flwyddyn ar gyfartaledd yn ddigon i ysgogi twf mewn cyflogaeth o ystyried yr enillion a ragwelir o ran cynhyrchiant.


Mae pryderon ynghylch prinder sgiliau arfaethedig wedi bod yn cynyddu'n ddiweddar ymysg rhai carfanau, a allai ymddangos yn rhyfeddol i ddechrau o ystyried safle'r diwydiant yn y cylch adfer. Mae'n debygol y bydd allbwn adeiladu yn 2013 yn dal i fod 15% yn is na'i uchafbwynt yn 2007, ac mae cyflogaeth yn debygol o fod 13% yn is na'i uchafbwynt yn 2008. Mae hyn yn awgrymu bod cronfa sylweddol o weithwyr adeiladu yn aros i ddychwelyd i'r diwydiant. Fodd bynnag, efallai bod llawer o'r gweithwyr hyn wedi cymryd swyddi mewn sectorau eraill, neu wedi ymddeol. Erys cwestiynau ynghylch nifer y gweithwyr a fydd yn dychwelyd i'r diwydiant wrth i'r twf barhau ac, o'r rheini, sawl un fydd wedi bod i ffwrdd o'r diwydiant am gyhyd fel bod angen rhyw lefel o ailhyfforddiant arnynt.

**Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn yn ôl rhanbarth 2014-2018**




Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn2

**Gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) yn ôl rhanbarth 2014-2018**




Ffynhonnell: CSN, Experian



Y gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) yw 3,570, sy'n cyfateb i 3.5% o gyflogaeth sylfaen 2014 yng Nghymru

# Esbonio CSN

Mae'r atodiad hwn yn darparu manylion ac eglurhad pellach am rai o'r pwyntiau a wneir yn yr adroddiad.

Mae Adran 1 yn rhoi trosolwg o'r dulliau sylfaenol a ddefnyddir gan CSN, drwy weithio mewn partneriaeth ag Experian, i greu'r gyfres o adroddiadau ar lefel y DU, ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol.

Mae Adran 2 yn darparu geirfa er mwyn egluro rhai o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiadau.

Mae Adran 3 yn cynnwys rhai nodiadau pellach sy'n ymwneud â'r ffynonellau data a ddefnyddir ar gyfer y gwahanol siartiau a thablau. Mae'r Adran hon hefyd yn nodi ystyr y term 'ôl troed', pan drafodir y meysydd cyfrifoldeb sydd gan Gyngor Sgiliau Sector.

Mae Adran 4 yn esbonio'r diffiniadau o sectorau a ddefnyddir yn yr adroddiad ac yn nodi enghreifftiau o'r hyn sy'n cael ei gynnwys ym mhob un.

Mae Adran 5 yn rhoi dadansoddiad manwl o'r 28 o grwpiau galwedigaethol yn ôl codau dosbarthiad galwedigaethol safonol (SOC) a gyfunir i ddarparu'r gofyniad cyflogaeth a recriwtio.

Mae Adran 6, ar ddiwedd yr atodiad hwn, yn rhoi manylion am yr ystod o adroddiadau LMI, manteision bod yn aelod o CSN a manylion cyswllt ar gyfer ymaelodi.

# 1 Methodoleg CSN

## Cefndir

Mae'r **Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu** (CSN) wedi bod yn esblygu ers iddo gael ei sefydlu yn 2005, gan sicrhau bod gan SgiliauAdeiladu ffordd o gasglu a chynhyrchu gwybodaeth am anghenion cyflogaeth a hyfforddiant y diwydiant ar gyfer y dyfodol.

Mae CITB, CIC a CITB-SgiliauAdeiladu Gogledd Iwerddon yn gweithio fel SgiliauAdeiladu, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y Diwydiant Adeiladu, i gynhyrchu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur sy'n rhoi sail i gynllunio ar gyfer anghenion sgiliau yn y dyfodol a thargedu buddsoddiad.

Mae CSN yn gweithredu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae'n cynnwys Grŵp Cenedlaethol, 12 grŵp Arsylwi, model rhagweld ar gyfer pob rhanbarth a gwlad, a Grŵp Cyfeirio Technegol. Ar hyn o bryd, mae grŵp Arsylwi yn gweithredu ym mhob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr, yn ogystal ag yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r grwpiau Arsylwi yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ar hyn o bryd ac yn cynnwys rhanddeiliaid rhanbarthol allweddol a wahoddwyd o blith y diwydiant, Llywodraeth, byd addysg a CSSau eraill, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu gwybodaeth am y diwydiant lleol a safbwyntiau ynghylch hyfforddiant, sgiliau, recriwtio, cymwysterau a pholisi.

Mae'r Grŵp Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, Llywodraeth, byd addysg a CSSau eraill. Mae'r Grŵp hwn yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, gan nodi'r sefyllfa genedlaethol sy'n sail i'r grwpiau Arsylwi i bob pwrpas.

Wrth wraidd CSN, ceir nifer o fodelau sy'n creu rhagolygon o ofynion cyflogaeth o fewn y diwydiant ar gyfer amrywiaeth o grwpiau galwedigaethol. Caiff y modelau eu cynllunio a'u rheoli gan Experian dan awdurdod ac arweiniad annibynnol y Grŵp Cyfeirio Technegol sy'n cynnwys ystadegwyr ac arbenigwyr ym maes modelu.

Mae'r modelau wedi esblygu dros amser a byddant yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried ymchwil newydd fel y caiff ei chyhoeddi yn ogystal â thechnegau modelu newydd a gwell.

Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Grŵp Cyfeirio Technegol y caiff newidiadau eu gwneud i'r model yn y dyfodol.

## Y modelau

Mae'r modelau yn dibynnu ar gyfuniad o waith ymchwil sylfaenol a safbwyntiau gan CSN er mwyn eu hwyluso. Defnyddir data cenedlaethol fel sail i'r tybiaethau sy'n ategu'r modelau, a gaiff eu haddasu wedyn gyda chymorth y grwpiau Arsylwi a'r Grŵp Cenedlaethol. Mae gan Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a phob rhanbarth yn Lloegr eu modelau eu hunain (er bod yr holl fodelau yn gydberthynol o ganlyniad i symudiadau llafur) ac, yn ogystal, ceir un model cenedlaethol sy'n gweithredu fel cyfyngiad ar y modelau unigol ac yn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r data mwyaf cadarn (sydd ar gael ar lefel genedlaethol).

Mae'r modelau yn rhagweld y galw am weithwyr medrus, a'u cyflenwad, ar wahân. Mae'r gwahaniaeth rhwng y galw a'r cyflenwad yn creu'r gofyniad cyflogaeth. Mae'r lefelau a ragwelir o ran cyfanswm cyflogaeth yn deillio o ddisgwyliadau ynghylch allbwn a chynhyrchiant adeiladu. Mae hyn, yn ei hanfod, yn seiliedig ar y cwestiwn 'Faint o bobl y bydd eu hangen er mwyn creu'r allbwn a ragwelir, o ystyried y tybiaethau a wnaethpwyd ynghylch cynhyrchiant?'

Gofyniad gros yw'r gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) sy'n ystyried llifau'r gweithlu i mewn ac allan o'r diwydiant adeiladu o ganlyniad i ffactorau fel symudiadau rhwng diwydiannau, mudo, salwch ac ymddeoliad. Fodd bynnag, nid yw'r llifau hyn yn cynnwys symudiadau i'r diwydiant o hyfforddiant, er bod data cadarn ynghylch y ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei ddatblygu gan CITB mewn partneriaeth ag asiantaethau ariannu cyhoeddus, addysg

bellach, addysg uwch a chynrychiolwyr cyflogwyr. Felly, mae'r gofyniad recriwtio blynyddol yn rhoi syniad o nifer y cyflogeion newydd y byddai angen eu recriwtio i'r diwydiant adeiladu bob blwyddyn er mwyn gwireddu'r allbwn a ragwelir.

Caiff amcangyfrifon o'r galw eu seilio ar ganlyniadau grwpiau trafod sy'n cynnwys arbenigwyr o'r diwydiant, darlun o allbwn y diwydiant adeiladu a modelau integredig sy'n ymwneud â pherfformiad economaidd cenedlaethol a rhanbarthol ehangach. Mae'r modelau yn ddynamig ac yn adlewyrchu hinsawdd economaidd gyffredinol y DU ar unrhyw adeg benodol. Er mwyn creu'r galw am lafur, mae'r modelau yn defnyddio set o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith er mwyn pennu'r gyflogaeth sydd ei hangen, yn ôl crefft, i greu'r lefelau a ragwelir o ran allbwn adeiladu. Mae'r cyflenwad llafur ar gyfer pob math o grefft neu broffesiwn yn seiliedig ar gyflenwad y flwyddyn flaenorol (cyfanswm y stoc cyflogaeth) wedi'i gyfuno â'r llifau i mewn ac allan o'r farchnad lafur.

Mae'r gollyngiadau (all-lifau) allweddol y bydd angen eu hystyried fel a ganlyn:


- trosglwyddiadau i ddiwydiannau eraill
- allfudo rhyngwladol/domestig
- ymddeoliadau parhaol (gan gynnwys salwch parhaol)
- all-lif oherwydd salwch dros dro a dyletswyddau yn y cartref.

Mae'n debygol mai trosglwyddo i ddiwydiannau eraill fydd y prif reswm dros all-lif.

Mae llifau i mewn i'r farchnad lafur yn cynnwys y canlynol:

- trosglwyddiadau o ddiwydiannau eraill
- mewnfudo rhyngwladol/domestig
- mewnlif oherwydd salwch dros dro a dyletswyddau yn y cartref.

Mae'n debygol mai trosglwyddo o ddiwydiannau eraill fydd y llif mwyaf sylweddol. Dangosir crynodeb o'r model yn y siart llif.






# 2 Geirfa

**Arbenigwyr amlen adeilad** – unrhyw grefft sy'n ymwneud â chladin allanol adeilad ac eithrio bricwaith, e.e. llenfuriau.

**Galw** – caiff y galw ei gyfrifo drwy ddefnyddio data ynghylch allbwn adeiladu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ac Adran Cyllid a Phersonél Gogledd Iwerddon (DFP), ynghyd â data ynghylch swyddi gwag o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Cenedlaethol, a gynhyrchir gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Caiff y setiau data hyn eu trosi yn ofynion llafur yn ôl crefft drwy ddefnyddio set o gyfernodau er mwyn cynhyrchu'r ffigurau ar gyfer y galw am lafur sy'n ymwneud â lefelau allbwn a ragwelir.

**CMC** (cynnyrch mewnwladol crynswth) – cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau terfynol a gynhyrchir, ar y farchnad. Mesur o incwm cenedlaethol. CMC = GYC ynghyd â threthi ar gynhyrchion llai cymorthdaliadau ar gynhyrchion.

**GYC** (gwerth ychwanegol crynswth) – cyfanswm yr allbwn llai gwerth y mewnbynnau a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu. Mae GYC yn mesur cyfraniad yr economi fel gwahaniaeth rhwng allbwn gros a mewnbynnau canolradd.

**Cyfernodau** – er mwyn creu'r galw am lafur, mae'r model yn defnyddio set o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith er mwyn pennu cyflogaeth, yn ôl crefft neu broffesiwn, ar sail cyflenwad y flwyddyn flaenorol. Yn ei hanfod, dyma nifer y gweithwyr sydd eu hangen ym mhob galwedigaeth neu grefft er mwyn cynhyrchu allbwn o £1m ar draws pob is-sector.

**LFS** (Arolwg o'r Llafurlu) – arolwg a anfonir i sampl o gartrefi yn y DU, sy'n casglu gwybodaeth am gyflogaeth, diweithdra, llifau rhwng sectorau a hyfforddiant. Cesglir gwybodaeth o tua 53,000 o gartrefi bob chwarter (mae'r sampl yn cwmpasu dros 100,000 o bobl).

**LMI** (gwybodaeth am y farchnad lafur) – data meintiol (rhifiadol) neu ansoddol (dealltwriaeth a chanfyddiadau) ynghylch gweithwyr, cyflogwyr, cyflogau, amodau gwaith ac ati.

**Macroeconomeg** – astudio economi ar lefel genedlaethol, gan gynnwys cyfansymiau cyflogaeth, buddsoddiad, mewnforion, allforion, cynhyrchu a defnydd.

**Nec** – heb ei ddosbarthu mewn mannau eraill, fe'i defnyddir fel cyfeirnod mewn data LFS.

**SYG** (Swyddfa Ystadegau Gwladol) – sefydliad sy'n cynhyrchu ystadegau swyddogol am yr economi, poblogaeth a chymdeithas ar lefel genedlaethol a lleol

**Allbwn** – cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir mewn economi.

**Cynhyrchiant** – allbwn fesul cyflogai.

**Codau SIC** (codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol) – o Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol y Deyrnas Unedig o Weithgareddau Economaidd, a gynhyrchir gan SYG.

**Cyflenwad** — cyfanswm y stoc cyflogaeth mewn cyfnod, ynghyd â'r llifau i mewn ac allan o'r farchnad lafur. Fel arfer, caiff data ei gyfrifo gan ddefnyddio data LFS.



# 3 Nodiadau ac Olion Traed

## Nodiadau

1 Ac eithrio Gogledd Iwerddon, darperir data am allbwn y rhanbarthau yn Lloegr, Cymru a'r Alban gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar sail prisiau cyfredol. Felly, defnyddiwyd datchwyddiadau cenedlaethol a luniwyd gan SYG er mwyn datchwyddo prisiau i sail pris cyson 2005 er mwyn gwaredu effeithiau chwyddiant.

2 Mae cyfradd gyfartalog flynyddol y twf o ran allbwn yn gyfradd twf gyfartalog gyfansawdd, h.y. y gyfradd y byddai'r allbwn yn tyfu bob blwyddyn pe bai'n cynyddu'n raddol dros gyfnod y rhagolwg.

3 Dim ond cydrannau dethol o werth ychwanegol crynswth (GYC) a ddangosir yn y tabl hwn ac felly nid ydynt yn cyfateb i'r cyfanswm.

4 Ar gyfer archebion am waith adeiladu newydd, gwneir cymhariaeth â Phrydain Fawr yn hytrach na'r DU, gan nad oes unrhyw setiau data ynghylch archebion ar gyfer Gogledd Iwerddon.

5 Caiff niferoedd cyflogaeth eu talgrynnu i'r 10 agosaf.

6 Mae'r tablau yn cynnwys data sy'n ymwneud â phlymwyr a thrydanwyr. Fel rhan o SIC 43, mae plymwyr a thrydanwyr sy'n gweithio ym maes contractio yn rhan annatod o'r broses adeiladu. Fodd bynnag, mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod bod SummitSkills yn gyfrifol am y galwedigaethau hyn ar draws amrywiaeth o godau SIC, gan gynnwys SIC 43.2.

7 Defnyddir isafswm adrodd o 50 ar gyfer y gofyniad recriwtio blynyddol (ARR). Fel canlyniad, nad yw rhai rhagolygon ARR rhanbarth a chenedl ddatganoledig symio i gyfanswm gofyniad y DU.

8 Mae'r tablau Cyflogaeth ac ARR yn dangos cyfansymiau gwahanol ar gyfer SIC41-43 a SIC41-43, 71.1 a 74.9. Mae'r cyfanswm ar gyfer SIC41-43 yn cwmpasu'r 24 grŵp galwedigaethol cyntaf ar y tablau perthnasol ac nid yw'n cynnwys peirianwyr sifil, gweithwyr proffesiynol a staff technegol eraill yn y diwydiant adeiladu, penseiri a syrfewyr. Mae'r cyfanswm ar gyfer SIC41-43, 71.1 a 74.9 yn cynnwys pob galwedigaeth.

## Olion Traed ar gyfer CSSau yr Amgylchedd Adeiledig

Mae SgiliauAdeiladu yn gyfrifol am SIC 41 Codi adeiladau, SIC 42 Peirianneg sifil, SIC 43 Gweithgareddau adeiladu arbenigol a SIC 71.1 Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig

Mae'r tabl yn crynhoi'r codau SIC (2007) a gwmpesir gan SgiliauAdeiladu.

## Yr olion troed sector ar gyfer y CSSau eraill sy'n ymwneud â'r Amgylchedd Adeiledig

### SummitSkills

**Ôl troed** – plymio, gwresogi, awyru, aerdymheru, rheweiddiol ac electrodechnegol.

**Yn cynnwys** - Peirianneg gwasanaethau adeiladu.

Mae SgiliauAdeiladu yn rhannu diddordeb â SummitSkills yn SIC 43.21 Gosodiadau trydanol a SIC 43.22 Plymwaith, gwresogi ac aerdymheru. Mae SgiliauAdeiladu yn cydnabod cyfrifoldeb SummitSkills ar draws Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol (SIC) 43.21 a 43.22; felly caiff data sy'n ymwneud â'r sector peirianneg gwasanaethau adeiladu ei gynnwys yma, yn bennaf er mwyn cynnig darlun llawn.

### Sgiliau Asedau

**Ôl troed** – gwasanaethau eiddo, tai, cyfleusterau, rheoli, glanhau.

**Yn cynnwys** - rheolwyr eiddo, tai a thir, syrfewyr siartredig, amcangyfrifwyr, priswyr, archwilwyr cartrefi, asiantau tai ac arwerthwyr (eiddo a chelfi), gofalwyr, gweithwyr peiriannau a gweithwyr symudol, glanhawyr ffenestri, ysgubwyr ffordd, glanhawyr, gwaith domestig, rheolwyr cyfleusterau.

Mae gan Sgiliau Asedau ddiddordeb ymylol yn SIC 71.1 Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig.

### Sgiliau Ynni a Chyfleustodau

**Ôl troed** - trydan, nwy (gan gynnwys gosodwyr nwy), dŵr a rheoli gwastraff.

**Yn cynnwys** - cynhyrchu a dosbarthu trydan, trawsyrru, dosbarthu a gosod a chynnal a chadw dyfeisiau nwy, casglu, puro a dosbarthu dŵr, casglu a phrosesu dŵr gwastraff, rheoli gwastraff.

| SgiliauAdeiladu | |
|---|---|
| Cod SIC | Disgrifiad |
| 41.1 | Datblygu prosiectau adeiladu |
| 41.2 | Codi adeiladau preswyl ac amhreswyl |
| 42.1 | Adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd |
| 42.2 | Adeiladu prosiectau cyfleustodau |
| 42.9 | Adeiladu prosiectau peirianneg sifil eraill |
| 43.1 | Dymchwel a pharatoi safleoedd |
| 43.3 | Cwblhau gwaith adeiladu a gorffeniadau |
| 43.9 | Gweithgareddau adeiladu arbenigol eraill (nec)* |
| 71.1 | Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg ac ymgynghori technegol cysylltiedig |

AssetSkills has a peripheral interest in SIC 71.1
*(nec) - heb ei ddosbarthu mewn man arall



CYNNWYS
CRYNODEB – CYMRU
Y RHAGOLWG AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU
RHAGOLYGON AR GYFER CYFLOGAETH YN Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU
CYMARIAETHAU LEDLED Y DU
ESBONIO CSN

# 4 Diffiniadau: mathau ac enghreifftiau o waith adeiladu

## Tai sector cyhoeddus - awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, trefi newydd ac adrannau llywodraeth

Cynlluniau tai, cartrefi i'r henoed a darparu ffyrdd a gwasanaethau ar gyfer nwy, dŵr, trydan, carthffosydd a draeniau mewn safleoedd tai.

## Tai sector preifat

Yr holl adeiladau preifat at ddefnydd preswyl, megis tai, fflatiau a fflatiau deulawr, byngalos, bythynnod a darparu gwasanaethau ar gyfer datblygiadau newydd.

## Seilwaith - cyhoeddus a phreifat

### Dŵr

Cronfeydd dŵr, gweithfeydd puro, argaeau, gweithfeydd dŵr, gorsafoedd pwmpio, gwaith hydrolig ac ati.

### Carthffosydd

Gwaith gwaredu carthion, gosod carthffosydd a ffosydd agored.

### Trydan

Gwaith peirianneg sifil ac adeiladu ar gyfer ymgymeriadau trydanol megis gorsafoedd ynni, argaeau a gwaith arall ar gynlluniau trydan dŵr, ffermydd gwynt ar y tir a datgomisiynu gorsafoedd ynni niwclear.

### Nwy, cyfathrebu, trafnidiaeth awyr

Gweithfeydd nwy, prif gyflenwad nwy a storio nwy; swyddfeydd post, swyddfeydd didoli, cyfnewidfeydd ffôn, canolfannau dargyfeirio ac ati, terfynellau awyr, llwybrau glanio, siediau awyrennau, neuaddau derbyn, gosodiadau radar.

### Rheilffyrdd

Ffordd barhaol, twnelau, pontydd, hafnau, gorsafoedd, cytiau locomotifau ac ati, signalau a systemau rheoli eraill a thrydaneiddio rheilffyrdd ar y tir a rheilffyrdd tanddaearol.

### Porthladdoedd

Yr holl waith a'r adeiladau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phorthladdoedd, glanfeydd, dociau, pierau, jetïau, camlesi a dyfrffyrdd, waliau môr, arglodiau ac amddiffynfeydd dŵr.

### Ffyrdd

Ffyrdd, palmentydd, pontydd, llwybrau troed, goleuadau, twnelau, trosffyrdd, ffensys ac ati.

## Adeiladu cyhoeddus dibreswyl[1]

### Ffatrïoedd a warysau

Ffatrïoedd, warysau, canolfannau sgiliau cyhoeddus.

### Olew, dur, glo

Bellach wedi'i gyfyngu i waith adfer ar gyfer cyrff gweddilliol y sector cyhoeddus.

### Ysgolion, colegau, prifysgolion

Ysgolion a cholegau gwladol (gan gynnwys colegau technegol ac athrofeydd amaethyddol); prifysgolion gan gynnwys neuaddau preswyl, sefydliadau ymchwil ac ati.

### Iechyd

Ysbytai gan gynnwys ysgolion meddygol, clinigau, canolfannau lles, canolfannau hyfforddi oedolion.

### Swyddfeydd

Swyddfeydd llywodraeth leol a chanolog, gan gynnwys neuaddau tref, swyddfeydd ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus ac eithrio'r lluoedd arfog, pencadlys yr heddlu.

### Adloniant

Theatrau, bwytai, pyllau nofio cyhoeddus, safleoedd carafanau mewn canolfannau gwyliau, gwaith ac adeiladau ar feysydd chwaraeon, stadia, caeau rasio ac ati y mae awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill yn berchen arnynt.

### Garejis

Adeiladau ar gyfer storio, trwsio a chynnal a chadw cerbydau ffordd, gweithdai trafnidiaeth, depos bysiau, depos cludo nwyddau ffyrdd a meysydd parcio.

### Siopau

Datblygiadau siopa trefol y mae Awdurdod Lleol wedi rhoi'r contract ar eu cyfer.

### Amaethyddiaeth

Adeiladau a gwaith mewn sefydliadau garddwriaethol sy'n derbyn arian cyhoeddus; draenio corstiroedd a draenio amaethyddol; clinigau milfeddygol.

### Amrywiol

Yr holl waith nad oes modd ei gynnwys yn amlwg dan unrhyw bennawd arall, megis gorsafoedd tân, gorsafoedd heddlu, carchardai, penydfeydd, cartrefi remand, gwaith amddiffyn sifil, gwaith ar gyfer Awdurdod Ynni Atomig y DU, depos cynghorau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd.

## Gwaith diwydiannol preifat

Ffatrïoedd, warysau, depos cyfanwerthu, yr holl waith a'r adeiladau eraill at ddibenion cynhyrchu neu brosesu diwydiannol, purfeydd, pibellau a therfynellau olew; platfformau cynhyrchu olew â choesau concrid sefydlog (nid llwyfannau); gwaith dur preifat; yr holl waith sydd ei angen i adeiladu pyllau glo newydd megis agor siafftiau, twnelu ac ati.

## Gwaith masnachol preifat[1]

Ysgolion a phrifysgolion: Ysgolion a cholegau yn y sector preifat, sy'n cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan gronfeydd preifat.

### Iechyd

Ysbytai, cartrefi nyrsio a chlinigau preifat.

### Swyddfeydd

Adeiladau swyddfa, banciau.

### Adloniant

Theatrau, neuaddau cyngerdd, sinemâu, gwestai, tafarndai, bwytai, caffis, gwersylloedd gwyliau, pyllau nofio, gwaith ac adeiladau ar feysydd chwaraeon, stadia a safleoedd chwaraeon neu hamddena eraill, hostelau ieuenctid.

### Garejis

Garejis trwsio, gorsafoedd petrol, depos bysiau, depos cludo nwyddau ac unrhyw waith neu adeiladau eraill ar gyfer storio, trwsio neu gynnal a chadw cerbydau ffordd, meysydd parcio.

### Siopau

Yr holl adeiladau ar gyfer dosbarthu at ddibenion manwerthu megis siopau, siopau adrannol, marchnadoedd manwerthu, ystafelloedd arddangos ac ati.

### Amaethyddiaeth

Yr holl adeiladau a gwaith ar ffermydd, sefydliadau garddwriaethol.

### Amrywiol

Yr holl waith nad oes modd ei gynnwys yn amlwg dan unrhyw bennawd arall, e.e. arddangosfeydd, safleoedd carafannau, eglwysi, neuaddau eglwys.

## Gwaith newydd

### Tai newydd

Adeiladu tai, fflatiau, byngalos newydd yn unig.

### Pob math arall o waith

Yr holl waith adeiladu newydd a'r holl waith y mae modd cyfeirio ato fel gwaith gwella, adnewyddu neu ailwampio ac y mae'n ychwanegu at werth yr eiddo.[2]

## Trwsio a chynnal a chadw

### Tai

Unrhyw waith i drawsnewid neu ddarparu estyniad i unrhyw annedd sy'n bodoli eisoes, a'r holl waith arall megis gwaith gwella, adnewyddu, ailwampio, gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac unrhyw fath arall o wariant ar waith trwsio neu gynnal a chadw.

### Pob sector arall

Gwaith trwsio a chynnal a chadw o bob math, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw cytundebol.[3]

1 Pan ddyfarnir contractau er mwyn adeiladu neu wella adeiladau dibreswyl a ddefnyddir er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus, megis ysbytai, gan ddeiliaid contractau o'r sector preifat, a dyfarnwyd dan Fenter Cyllid Preifat, caiff y gwaith ei ddosbarthu fel gwaith 'masnachol preifat'.

2 Efallai na fydd contractwyr sy'n adrodd am waith bob amser yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng gwaith gwella neu adnewyddu a gwaith trwsio a chynnal a chadw yn y sectorau dibreswyl.

3 Ac eithrio lle y nodir, caiff cynlluniau datblygu cymysg eu dosbarthu yn ôl y sector sy'n darparu'r mwyafrif o'r cyllid.

# 5 Grwpiau Galwedigaethol

## Grŵp galwedigaethol
Disgrifiad, cyfeirnod SOC (2010).

## Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes

| | |
|---|---|
| Prif weithredwyr ac uwch swyddogion | 1115 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr ariannol | 1131 |
| Cyfarwyddwyr marchnata a gwerthu | 1132 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr prynu | 1133 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr adnoddau dynol | 1135 |
| Rheolwyr eiddo, tai a thir | 1251 |
| Cyfarwyddwyr technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | 1136 |
| Rheolwyr ymchwil a datblygu | 2150 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr storio a storfeydd | 1162 |
| Rheolwyr a pherchnogion mewn gwasanaethau eraill (nec*) | 1259 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr swyddogaethol (nec*) | 1139 |
| Rheolwyr TG arbenigol | 2133 |
| Rheolwyr prosiectau a rhaglenni TG | 2134 |
| Rheolwyr cyfrifon ariannol | 3538 |
| Rheolwyr cyfrifon gwerthu a datblygu busnes | 3545 |

## Rheolwyr prosiectau adeiladu

| | |
|---|---|
| Rheolwyr prosiectau adeiladu a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig | 2436 |

## Rheolwyr prosesau adeiladu eraill

| | |
|---|---|
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr cynhyrchu ym maes gweithgynhyrchu | 1121 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr cynhyrchu ym maes adeiladu | 1122 |
| Rheolwyr a chyfarwyddwyr trafnidiaeth a dosbarthu | 1161 |
| Rheolwyr gwasanaethau gwaredu gwastraff ac amgylcheddol | 1255 |
| Swyddogion iechyd a diogelwch | 3567 |
| Gweithwyr proffesiynol cyswllt cadwraeth a diogelu'r amgylchedd | 3550 |

## Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill nad ydynt yn staff adeiladu (heb gynnwys rheolwyr)

| | |
|---|---|
| Technegwyr gweithrediadau TG | 3131 |
| Technegwyr cymorth defnyddwyr TG | 3132 |
| Dadansoddwyr a chynghorwyr cyllid a buddsoddi | 3534 |
| Arbenigwyr treth | 3535 |
| Technegwyr cyfrifyddu ac ariannol | 3537 |
| Hyfforddwyr diwydiannol a galwedigaethol | 3563 |
| Gweithwyr proffesiynol busnes a chyswllt cysylltiedig (nec*) | 3539 |
| Gweithwyr proffesiynol cyswllt cyfreithiol | 3520 |
| Archwilwyr safonau a rheoliadau | 3565 |
| Rhaglenwyr a gweithwyr datblygu meddalwedd proffesiynol | 2136 |
| Gweithwyr proffesiynol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (nec*) | 2139 |
| Asiantau tai ac arwerthwyr | 3544 |
| Cyfreithwyr | 2413 |
| Gweithwyr cyfreithiol proffesiynol (nec*) | 2419 |
| Cyfrifwyr siartredig ac ardystiedig | 2421 |
| Gweithwyr busnes a rheoli prosiectau ariannol proffesiynol | 2424 |
| Ymgynghorwyr rheoli a dadansoddwyr busnes | 2423 |
| Derbynyddion | 4216 |
| Teipyddion a galwedigaethau bysellfwrdd cysylltiedig | 4217 |
| Swyddogion gweithredol gwerthiannau busnes | 3542 |
| Clercod cyfrifon, rheolwyr y gyflogres a chlercod cyflogau | 4122 |
| Clercod a chynorthwywyr cofnodion | 4131 |
| Clercod a chynorthwywyr rheoli stoc | 4133 |
| Teleffonyddion | 7213 |
| Gweithredwyr cyfathrebu | 7214 |
| Cynorthwywyr personol ac ysgrifenyddion eraill | 4215 |
| Cynorthwywyr gwerthu a manwerthu | 7111 |
| Swyddogion gwerthu dros y ffôn | 7113 |
| Prynwyr a swyddogion caffael | 3541 |
| Swyddogion adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol | 3562 |
| Rheolwyr credyd | 4121 |
| Ysgrifenyddion cwmni | 4214 |
| Galwedigaethau sy'n gysylltiedig â gwerthu (nec*) | 7129 |
| Galwedigaethau canolfannau galwadau a chanolfannau cyswllt | 7211 |
| Galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid (nec*) | 7219 |
| Galwedigaethau gweinyddol elfennol (nec*) | 9219 |
| Gwyddonwyr cemegol | 2111 |
| Gwyddonwyr biolegol a biocemegwyr | 2112 |
| Gwyddonwyr ffisegol | 2113 |
| Technegwyr labordy | 3111 |
| Dylunwyr graffeg | 3421 |
| Gweithwyr iechyd yr amgylchedd proffesiynol | 2463 |
| Dadansoddwyr busnes TG, penseiri a dylunwyr systemau | 2135 |
| Gweithwyr cadwraeth proffesiynol | 2141 |
| Gweithwyr amgylcheddol proffesiynol | 2142 |
| Actiwarïaid, economegwyr ac ystadegwyr | 2425 |
| Gweithwyr busnes a gweithwyr ymchwil cysylltiedig proffesiynol | 2426 |
| Swyddogion cyllid | 4124 |
| Galwedigaethau gweinyddol ariannol (nec*) | 4129 |
| Galwedigaethau gweinyddol adnoddau dynol | 4138 |

*(nec) – heb ei ddosbarthu mewn man arall

| | |
|---|---|
| Gweinyddwyr gwerthu | 4151 |
| Galwedigaethau gweinyddol eraill (nec*) | 4159 |
| Goruchwylwyr swyddfa | 4162 |
| Goruchwylwyr gwerthu | 7130 |
| Rheolwyr a goruchwylwyr gwasanaeth cwsmeriaid | 7220 |
| Rheolwyr swyddfa | 4161 |

## Goruchwylwyr crefftau adeiladu

| | |
|---|---|
| Goruchwylwyr crefftau metel, trydanol ac electronig medrus | 5250 |
| Goruchwylwyr adeiladu a chrefftau adeiladu | 5330 |

## Crefftau pren a gwaith gosod mewnol

| | |
|---|---|
| Seiri coed ac asiedyddion | 5315 |
| Gweithredwyr peiriannau papur a phren | 8121 |
| Gwneuthurwyr dodrefn a seiri coed crefft eraill | 5442 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu (nec*) (25%) | 5319 |

## Bricwyr

| | |
|---|---|
| Bricwyr a seiri maen | 5312 |

## Arbenigwyr amlen adeilad

| | |
|---|---|
| Adeiladu a chrefftau adeiladu (nec*) (50%) | 5319 |

## Peintwyr ac addurnwyr

| | |
|---|---|
| Peintwyr ac addurnwyr | 5323 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu (nec*) (5%) | 5319 |

## Plastrwyr

| | |
|---|---|
| Plastrwyr | 5321 |

## Towyr

| | |
|---|---|
| Towyr a theilswyr to | 5313 |

## Llorwyr

| | |
|---|---|
| Llorwyr a theilswyr waliau | 5322 |

## Gwydrwyr

| | |
|---|---|
| Gwydrwyr, gwneuthurwyr a gosodwyr ffenestri | 5316 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu (nec*) (5%) | 5319 |

## Gweithredwyr adeiladu arbenigol nad ydynt wedi'u dosbarthu mewn mannau eraill (nec*)

| | |
|---|---|
| Gweithredwyr adeiladu (nec*) (100%) | 8149 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu (nec*) (5%) | 5319 |
| Galwedigaethau prosesau glanhau diwydiannol | 9132 |
| Crefftau medrus eraill (nec*) | 5449 |

## Sgaffaldwyr

| | |
|---|---|
| Sgaffaldwyr, gosodwyr llwyfannau a rigwyr | 8141 |

## Gweithredwyr peiriannau

| | |
|---|---|
| Gyrwyr craeniau | 8221 |
| Gweithredwyr peiriannau (nec*) | 8129 |
| Gyrwyr wagenni fforch godi | 8222 |
| Gyrwyr a gweithredwyr peiriannau symudol (nec*) | 8229 |

## Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar

| | |
|---|---|
| Gosodwyr cynnal a chadw a chynhyrchu I gwaith metel | 5223 |
| Gwneuthurwyr ac atgyweiriwyr offer manwl | 5224 |
| Technegwyr, mecanyddion a thrydanwyr cerbydau | 5231 |
| Galwedigaethau peiriannau prosesau elfennol (nec*) | 9139 |
| Gwneuthurwyr offer, gosodwyr offer a marcwyr | 5222 |
| Gweithwyr adeiladu a thrwsio corff cerbydau | 5232 |

## Gosodwyr dur/strwythurol

| | |
|---|---|
| Gosodwyr dur | 5311 |
| Crefftau weldio | 5215 |
| Gweithwyr platiau metel a rhybedwyr | 5214 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu (nec*) (5%) | 5319 |
| Gofaint a gweithwyr gefail | 5211 |
| Gosodwyr peiriannu metel a hogwyr | 5221 |

## Llafurwyr (nec*)

| | |
|---|---|
| Galwedigaethau adeiladu elfennol (100%) | 9120 |

## Crefftau trydanol a gwaith gosod

| | |
|---|---|
| Trydanwyr a gosodwyr trydanol | 5241 |
| Trydanol a chrefftau trydanol (nec*) | 5249 |
| Peirianwyr telathrebu | 5242 |

## Crefftau plymio a gwresogi, awyru ac aerdymheru

| | |
|---|---|
| Plymwyr a pheirianwyr gwresogi ac awyru | 5314 |
| Gosodwyr pibellau | 5216 |
| Adeiladu a chrefftau adeiladu (nec*) (5%) | 5319 |
| Peirianwyr aerdymheru a rheweiddiol | 5225 |

## Logisteg

| | |
|---|---|
| Gyrwyr cerbydau nwyddau trwm | 8211 |
| Gyrwyr faniau | 8212 |
| Galwedigaethau storio elfennol | 9260 |
| Prynwyr a swyddogion prynu (50%) | 3541 |
| Clercod a chynorthwywyr trafnidiaeth a dosbarthu | 4134 |

## Gweithredwyr peirianneg sifil nad ydynt wedi'u dosbarth mewn mannau eraill (nec*)

| | |
|---|---|
| Gweithredwyr adeiladu ffyrdd | 8142 |
| Gweithredwyr adeiladu a chynnal a chadw rheilffyrdd | 8143 |
| Gweithwyr chwarela a gweithredwyr cysylltiedig | 8123 |

## Gweithredwyr nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu

| | |
|---|---|
| Gweithredwyr prosesau creu a thrin metel | 8117 |
| Gweithredwyr proses (nec*) | 8119 |

Gweithredwyr peiriannau gwaith metel, 8125

Gweithredwyr peiriannau dŵr a charthion, 8126

*(nec) – heb ei ddosbarthu mewn man arall

| | |
|---|---|
| Cyfosodwyr (cerbydau a nwyddau metel) | 8132 |
| Archwilwyr a swyddogion profi cyson | 8133 |
| Cyfosodwyr a gweithredwyr cyson (nec*) | 8139 |
| Galwedigaethau diogelwch elfennol (nec*) | 9249 |
| Glanhawyr a gweithwyr domestig | 9233 |
| Glanhawyr stryd | 9232 |
| Garddwyr a thirlunwyr | 5113 |
| Gofalwyr | 6232 |
| Swyddogion diogelwch a galwedigaethau cysylltiedig | 9241 |
| Gweithwyr gwasanaethau diogelwch cyswllt proffesiynol (nec*) | 3319 |

## Peirianwyr sifil

Peirianwyr sifil, 2121

## Gweithwyr adeiladu a staff technegol proffesiynol eraill

| | |
|---|---|
| Peirianwyr mecanyddol | 2122 |
| Peirianwyr trydanol | 2123 |
| Peirianwyr dylunio a datblygu | 2126 |
| Peirianwyr cynhyrchu a phroses | 2127 |
| Peiriannwyr rheoli ansawdd a chynllunio | 2461 |
| Gweithwyr peirianneg proffesiynol (nec*) | 2129 |
| Technegwyr trydanol ac electroneg | 3112 |
| Technegwyr peirianneg | 3113 |
| Technegwyr adeiladu a pheirianneg sifil | 3114 |
| Technegwyr gwyddoniaeth, peirianneg a chynhyrchu (nec*) | 3119 |
| Technegwyr pensaernïol a thechnegwyr cynllunio tref | 3121 |
| Drafftsmyn | 3122 |
| Technegwyr sicrhau ansawdd | 3115 |
| Swyddogion cynllunio tref | 2432 |
| Peirianwyr electroneg | 2124 |
| Technolegwyr pensaernïol siartredig | 2435 |
| Amcangyfrifwyr, priswyr ac aseswyr | 3531 |
| Technegwyr cynllunio, proses a chynhyrchu | 3116 |

## Penseiri

| | |
|---|---|
| Penseiri | 2431 |

## Syrfewyr

| | |
|---|---|
| Syrfewyr siartredig | 2433 |
| Syrfewyr meintiau | 2434 |

*(nec) – heb ei ddosbarthu mewn man arall



CYNNWYS
CRYNODEB – CYMRU
Y RHAGOLWG AR GYFER Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU
RHAGOLYGON AR GYFER CYFLOGAETH YN Y DIWYDIANT ADEILADU YNG NGHYMRU
CYMARIAETHAU LEDLED Y DU
ESBONIO CSN

# 6 Gwefan a manylion cyswllt CSN

## Gwefan CSN

**citb.co.uk/research/construction-skills-network**

Mae gwefan CSN yn borth cyhoeddus i bobl sydd am weld yr amrywiaeth o adroddiadau gwybodaeth am y farchnad lafur (LMI) a'r deunydd ymchwil a gynhyrchir yn rheolaidd gan CSN.

Mae modd lawrlwytho'r prif adroddiad ar gyfer y DU, ynghyd â'r 12 adroddiad LMI (un ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a phob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr) o'r wefan, ac mae adroddiadau ymchwil CITB hefyd ar gael i bawb ar wefan CITB. Mae gallu cyrchu'r amrywiaeth hon o wybodaeth am y farchnad lafur a dealltwriaeth o dueddiadau yn galluogi'r diwydiant, Llywodraeth, asiantaethau rhanbarthol a rhanddeiliaid allweddol i wneud y canlynol:

- Amlygu'r sgiliau cysylltiedig a phenodol y bydd eu hangen fesul blwyddyn
- Nodi'r sectorau sy'n debygol o weld y twf mwyaf mewn allbwn ym mhob rhanbarth a gwlad ddatganoledig
- Olrhain yr economi facro
- Deall sut mae digwyddiadau economaidd yn effeithio ar berfformiad economaidd rhanbarthau a gwledydd datganoledig
- Amlygu tueddiadau ar draws y diwydiant megis newidiadau cenedlaethol a rhanbarthol o ran galw
- Blaengynllunio a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau gweithlu sydd wedi bod yn symudol yn draddodiadol
- Deall lefelau'r newydd-ddyfodiaid cymwys sydd eu hangen ar gyfer y gweithlu.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Sut mae CSN yn gweithio
- Modelau CSN
- Sut y gellir defnyddio'r model i ystyried sefyllfaoedd
- Gwybodaeth gyswllt tîm CSN
- Mynediad at waith ymchwil cysylltiedig CITB
- Manylion ar gyfer y sawl sydd â diddordeb mewn dod yn aelod o'r rhwydwaith.

Tra bod ardal gyhoeddus Gwefan CSN yn cynnig porth i adroddiadau ymchwil ac LMI wedi'u cwblhau, mae bod yn aelod o CSN yn cynnig manteision pellach.

Fel aelod o CSN, byddwch yn cael eich cysylltu ag un o'r grwpiau Arsylwi sy'n chwarae rôl hanfodol wrth roi adborth am arsylwadau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd ym mhob rhanbarth a gwlad yn y DU. Defnyddir yr adborth hwn i fireinio'r tybiaethau a'r data sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen rhagweld, megis:

- Manylion prosiectau penodol
- Y galw o fewn mathau amrywiol o waith neu sectorau
- Cyflenwad llafur
- Mewnlifau ac all-lifau ar draws y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig.

Felly, mae modd i aelodau CSN:

- Weld rhagolygon yn gynnar
- Cael cyfle i ddylanwadu ar y data a chyfrannu ato
- Gofyn am sefyllfaoedd a allai ateb cwestiynau megis "Beth fyddai'n digwydd pe bai..." gan ddefnyddio'r model.

Drwy safle'r aelodau ar wefan CSN, mae modd i aelodau:

- Cael gafael ar ddeunydd cysylltiedig grwpiau Arsylwi megis dyddiadau cyfarfodydd, agendâu, cyflwyniadau a nodiadau
- Lawrlwytho deunydd ymchwil ychwanegol
- Gwneud sylwadau/rhoi adborth i dîm CSN.

Wrth i'r grwpiau Arsylwi amlygu'r materion gwirioneddol y mae'r diwydiant yn eu hwynebu yn y DU, gallwn gynllunio ein hymateb i anghenion sgiliau mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Os hoffech gyfrannu'ch sylwadau, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r diwydiant i'r broses hon, a dod yn aelod o CSN, byddem yn falch o glywed gennych.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am wefan CSN, os oes gennych unrhyw ymholiadau am waith CSN, neu os hoffech gofrestru'ch diddordeb mewn bod yn aelod o CSN, cysylltwch â ni yn: **csn@citb.co.uk**

Am ragor o wybodaeth am Rwydwaith SgiliauAdeiladu, cysylltwch ag:

Adam Evans
Ymchwil a Datblygu
Dadansoddwr Ymchwil
0344 994 4400

adam.evans@citb.co.uk

citb.co.uk



citb.co.uk

Mae CITB, CIC a CITB-SgiliauAdeiladu Gogledd Iwerddon yn gweithio fel SgiliauAdeiladu, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer adeiladu.